

Sut i agor eich cyfrif

Mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i ni gadarnhau hunaniaeth pob cwsmer pan fyddwch chi'n agor cyfrif cynilo newydd gyda ni, p'un ai os ydych chi'n gwsmer newydd neu'n gwsmer yn barod. Does dim angen poeni, dyw hyn ddim yn golygu eich bod chi dan amheuaeth. Mae'n ffordd o sicrhau ein bod ni'n gallu cydymffurfio â Rheoliadau Gwyngalchu Arian y DU a helpu i atal troseddwr rhag defnyddio cynnyrch neu wasanaethau ariannol er eu budd eu hunain. Fyddwn ni ond yn gofyn i chi am ddigon o wybodaeth i'n galluogi i agor eich cyfrif.

SWANSEA
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

Beth fydd ei angen arnoch i agor cyfrif



Pan fyddwch chi'n agor cyfrif, rhaid i ni wirio eich enw a'ch cyfeiriad. Y ffordd rydyn ni'n ei ffafrio o adnabod ymgeiswyr sydd dros 18 yw drwy SmartSearch, offeryn arlein sy'n defnyddio gwybodaeth gan Asiantaethau Cyfeirio Credyd i wirio eich hunaniaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn ein galluogi i agor eich cyfrif heb unrhyw ddulliau adnabod papur. (Nodwch os gwelwch yn dda y bydd hyn yn dangos fel chwiliad bas data'n unig ac nid fel gwiriad sgôr credyd, felly ni fydd yn effeithio ar eich statws credyd). Os bydd angen mwy o brawf o bwy ydych arnom, fe rown ni wybod i chi. Bydd y gofynion hyn hefyd yn berthnasol os ydych chi dan 18. Bydd sawl un a pha fath o ddeunydd adnabod sydd angen i chi eu darparu yn yr achosion hyn yn ddibynnol ar bethau fel a ydych chi'n gwsmer yn barod ac a ydych chi'n agor cyfrif yn un o'n swyddfeydd cangen neu drwy'r post.

Gallwch agor eich cyfrif, drwy alw yn un o'n swyddfeydd cangen neu anfon drwy'r post, drwy gyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau ynghyd â'ch adnau cychwynnol. Os ydych chi'n agor y cyfrif drwy'r post, peidiwch ag anfon arian parod os gwelwch yn dda, ac os ydych chi'n anfon siec atom, gwnewch yn siŵr ei bod hi'n daladwy i chi yn bersonol ac nid i Swansea Building Society. Gall ymgeiswyr sydd eisoes yn gwsmeriaid anfon sgan o ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn dros e-bost at eich swyddfa gangen agosaf, a gallwch ddewis postio neu alw i mewn gyda'r adnau agoriadol cychwynnol. Fel uchod, os ydych chi'n postio'r adnau, peidiwch ag anfon arian parod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr wybodaeth uchod, mae croeso i chi alw i mewn, ysgrifennu atom, anfon e-bost neu ffonio un o'n swyddfeydd cangen ble gall un o'n staff cyfeillgar, profiadol eich helpu.

Rhestr wirio

| | | |
|----------|---|---|
| 1 | Ydych chi wedi llenwi a llofnodi'r ffurflen gais? Os oes angen ffurflenni arnoch i ychwanegu mwy o ymgeiswyr ar gyfrif (neu ychwanegu gweithredwr ychwanegol i gyfrif plentyn) cysylltwch â'ch cangen leol neu lawrlwythwch y ffurflen berthnasol o'r wefan. | ✓ |
| 2 | Ydych chi wedi darllen y Daflen Wybodaeth Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol / Rhestr Eithrio Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol? Mae'r ffurflen uchod ar gael i chi ei darllen / lawrlwytho o'r dewis Llenyddiaeth / Ffurflenni Cynilo yn adran Gynilo'r wefan. Bydd gofyn i chi gadarnhau ar y ffurflen gais eich bod wedi derbyn Taflen Wybodaeth FSCS, a rhaid i'r Gymdeithas dderbyn y cadarnhad hwnnw cyn agor eich cyfrif. | ✓ |
| 3 | Oes angen i chi ddarparu dogfennau adnabod? I gael gwybodaeth ynghylch pa ID sydd angen, darllenwch y daflen 'Profi Eich Hunaniaeth' sydd ar gael o'ch swyddfa gangen leol neu drwy ddewis Llenyddiaeth / Ffurflenni Cynilo yn adran Gynilo'r wefan. | ✓ |
| 4 | Peidiwch ag anghofio arian ar gyfer y cyfrif! Nodwch beth yw lleiafswm yr adnau cychwynnol sydd ei angen ar gyfer y math o gyfrif sy'n cael ei agor. | ✓ |
| 5 | Dewch â'r cyfan atom ni – naill ai drwy'r post neu wyneb yn wyneb (neu os ydych eisoes yn gwsmer, drwy e-bost). Peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post, a gwnewch yn siŵr fod sieciau'n daladwy i chi. | ✓ |

Dyna ni! – mae hi mor hawdd â hynny!

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gais, bydd holl fanylion a gwybodaeth berthnasol eich cyfrif newydd yn dilyn yn fuan.

SWANSEA

BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

Caerfyrddin

13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

Y Bont-faen

75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

Y Mwmbwls

496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

Abertawe

1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

SBS (CAFC 0122)



Protected